AROLWG TEITHIO CENEDLAETHOL CYMRU

WALES NATIONAL TRAVEL SURVEY

Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru: Canlyniadau tacsis, 2025/26

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu detholiad o ganlyniadau o'r deuddeg mis cyntaf o gasglu data ar gyfer Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru 2025/26 (yr Arolwg Teithio). Mae'r canlyniadau hyn yn seiliedig ar dros 6,100 o ymatebion a 18,000 o deithiau a gofnodwyd ledled Cymru. Ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu yw'r data.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar deithio mewn tacsi. Mae'n dwyn ynghyd wybodaeth am sut mae pobl yn teithio, a'u barn a'u hagweddau tuag at wasanaethau tacsi. Nid yw'r Arolwg Teithio yn gwahaniaethu yn ôl darparwr gwasanaeth, ac felly gall ffigurau ar gyfer defnydd neu foddhad fod yn wahanol i ffigurau sy'n benodol i weithredwyr.

Mae'r Arolwg Teithio yn arolwg newydd, a dyma'r arolwg teithio cenedlaethol cyntaf yng Nghymru ers 2012. Dylid bod yn ofalus wrth ystyried canlyniadau ochr yn ochr â ffynonellau data eraill. Efallai fod gwahaniaethau gan fod diffiniadau gwahanol wedi'u defnyddio, gan fod methodolegau arolwg yn wahanol neu gan fod gwahaniaethau gwirioneddol mewn ymddygiad teithio.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn seiliedig ar flwyddyn gyntaf yr arolwg, gyda data'n cael ei gasglu o sypiau sampl rhwng mis Mawrth 2025 a mis Chwefror 2026. Mae gwybodaeth am ansawdd ar gael yn yr Adroddiad Ansawdd.

Mae nifer o dermau sy'n ymwneud yn benodol â thrafnidiaeth wedi cael eu defnyddio yn yr adroddiad hwn. Rydym wedi llunio dogfen ddiffiniadau i helpu pobl i ddeall.

Y prif ganfyddiadau

- Rydym yn amcangyfrif bod 0.9% o deithiau y pen y flwyddyn wedi'u gwneud mewn tacsi.
- Roedd 68.1% o deithiau tacsi wedi cael eu gwneud gan y 6.7% o ymatebwyr a oedd yn teithio mewn tacsi o leiaf unwaith yr wythnos.
- Roedd cyfran uwch o ymatebwyr anabl yn defnyddio tacsi o leiaf unwaith yr wythnos, sef 9.1% o'i gymharu â 5.7% ar gyfer ymatebwyr nad oeddent yn anabl.
- Dywedodd 52.6% o'r ymatebwyr fod llawer o wasanaethau tacsi yn eu hardal, gyda 30.4% arall yn dweud bod yna brinder o wasanaethau tacsi ar gael yn eu hardal.
- Roedd 89.3% o ddefnyddwyr tacsi naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon â'u taith tacsi gyffredinol.
- "Prisiau rhatach" oedd y ffactor mwyaf poblogaidd a fyddai'n annog defnyddwyr tacsis i deithio mewn tacsi yn amlach (65.8%).

Nodyn ar y data

Mae'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ac yn y tablau ategol yn amcangyfrifon sy'n seiliedig ar ymddygiad a barn ymatebwyr. Mae'r data wedi cael ei bwysoli i gynrychioli poblogaeth oedolion Cymru.

Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon hyn. Mae'r lefel hon o ansicrwydd yn fwy ar gyfer grwpiau llai a dulliau teithio llai cyffredin. Er enghraifft, mae amcangyfrifon ar gyfer de-ddwyrain Cymru yn seiliedig ar 2,825 o ymatebwyr, o'i gymharu â 665 o ganolbarth Cymru, sy'n golygu bod mwy o ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon ar gyfer ganolbarth Cymru. Fodd bynnag, mae'r arolwg yn dal i ddarparu amcangyfrifon rhesymol ar gyfer y grwpiau poblogaeth llai hyn.

Mae rhagor o wybodaeth am gywirdeb a manylder yr amcangyfrifon hyn ar gael yn adran Cywirdeb yr Adroddiad Ansawdd.

Ar gyfer rhai cwestiynau, gallai ymatebwyr ddewis hyd at dri opsiwn ymateb felly efallai na fydd y cyfansymiau'n hafal i 100%.

Amlder teithiau mewn tacsi

Roedd y cwestiynau am ba mor aml yr oedd pobl yn teithio yn mesur pa mor aml yr oedd unigolyn wedi teithio mewn tacsi yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn wahanol i gyfran y dull teithio, sef cyfran y teithiau y pen y flwyddyn a wneir mewn tacsi.

- Dywedodd 6.7% o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio tacsi o leiaf unwaith yr wythnos (0.8% y rhan fwyaf o ddiwrnodau, 2.0% sawl gwaith yr wythnos a 3.8% unwaith yr wythnos).
- Roedd 46.1% o'r ymatebwyr yn teithio mewn tacsi yn anaml. Dywedodd 9.6% eu bod yn defnyddio tacsi unwaith neu ddwywaith y mis, 14.0% unwaith pob ychydig fisoedd, a 22.6% unwaith neu ddwywaith yn ystod y flwyddyn.
- Dywedodd 46.4% o ymatebwyr nad oeddent yn defnyddio tacsi o gwbl.

Tacsis: amlder teithio

Ffigur 1: Pa mor aml yr oedd ymatebwyr wedi defnyddio tacsi yn ystod y 12 mis diwethaf, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 1: Siart bar llorweddol yn dangos canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn defnyddio tacsi yn aml, yn anaml neu ddim o gwbl. Dywedodd 6.7% o ymatebwyr eu bod yn defnyddio tacsi yn aml, gydag 46.1% yn dweud mai anaml yr oeddent yn defnyddio tacsi.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, amlder teithio

Amlder teithio yn ôl statws anabledd

- Roedd cyfran uwch o ymatebwyr anabl yn defnyddio tacsi o leiaf unwaith yr wythnos, sef 9.1% o'i gymharu â 5.7% ar gyfer ymatebwyr nad oeddent yn anabl.

Amlder teithio yn ôl rhanbarth

- Roedd llawer llai o ymatebwyr yng nghanolbarth Cymru yn defnyddio tacsi o leiaf unwaith yr wythnos (1.8%) nag mewn rhanbarthau eraill. Roedd 5.4% o'r ymatebwyr yng ngogledd Cymru, 6.6% yn ne-orllewin Cymru a 7.9% yn ne-ddwyrain Cymru yn defnyddio tacsi o leiaf unwaith yr wythnos.

Grŵp oedran

- Mae'r defnydd o dacsis o leiaf unwaith yr wythnos ar ei uchaf ymysg ymatebwyr 16-24 oed, sef 13.2% ac yna'r rhai sy'n 85 oed neu'n hŷn, sef 12.5%. Mae'n lleiaf cyffredin ymysg ymatebwyr 65-74 oed, sef 4.5%.

Argaeledd tacsis

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a oedd gwasanaethau tacsi ar gael yn eu hardal leol.

- Dywedodd tua hanner (52.6%) yr ymatebwyr “oes, mae llawer o wasanaethau” yn eu hardal. Dywedodd 30.4% “oes, mae ychydig o wasanaethau” yn eu hardal a dywedodd 7.3% “na, mae diffyg gwasanaethau” yn eu hardal.
- De-orllewin Cymru oedd â'r gyfran uchaf o ymatebwyr a nododd fod llawer o wasanaethau, sef 59.6% ac yna de-ddwyrain Cymru (54.8%), gogledd Cymru (47.8%) a chanolbarth Cymru (28.4%).

Cyfran o'r prif ddull teithio

Mae'r prif ddull teithio yn cyfeirio at y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y pellter hiraf o fewn taith. Y gyfran o'r prif ddull teithio yw canran y teithiau y pen y flwyddyn sy'n cael eu cwblhau drwy brif ddull penodol.

Yn 2025/26, rydym yn amcangyfrif bod ymatebwyr wedi gwneud 5.8 taith y pen y flwyddyn mewn tacsi.

- Yn gyffredinol, rydym yn amcangyfrif bod 0.9% o deithiau wedi cael eu gwneud mewn tacsi.
- Preswylwyr de-ddwyrain Cymru wnaeth y gyfran fwyaf o deithiau mewn tacsi (1.1%), ac yna trigolion de-orllewin Cymru (1.0%). Roedd 0.6% o deithiau yng ngogledd Cymru yn cael eu gwneud mewn tacsi. Yng nghanolbarth Cymru, llai na 0.5% o deithiau a wnaed drwy'r dull hwn.
- Roedd pobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol yn gwneud cyfran fwy o'u teithiau mewn tacsi na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mewn ardaloedd trefol, roedd 1.2% o deithiau'n cael eu gwneud mewn tacsi o'i gymharu â llai na 0.5% mewn ardaloedd gwledig.

Cyfran o'r dull teithio yn ôl amlder teithio

- Nodwyd bod 6.7% o'r ymatebwyr yn ddefnyddwyr rheolaidd, gan deithio mewn tacsi o leiaf unwaith yr wythnos. Roedd y defnyddwyr rheolaidd hyn yn cyfrif am 68.1% o'r holl deithiau tacsi. Roeddent yn gwneud 11.6% o'u teithiau mewn tacsi (59.0 taith y pen y flwyddyn).
- Nodwyd nad oedd 46.1% o ymatebwyr yn defnyddio tacsi'n gyson. Roedd yr ymatebwyr hyn yn gwneud 0.5% o'u teithiau mewn tacsi. Roeddent yn cyfrif am 28.5% o deithiau tacsi.
- Dywedodd 46.4% arall o'r ymatebwyr nad oeddent yn teithio mewn tacsi o gwbl a'u bod yn gwneud llai nag un daith tacsi y pen y flwyddyn.

Cyfran o'r dull teithio yn ôl rhyw yr ymatebydd

- Roedd gwahaniaethau bach yn y defnydd o dacsis yn ôl rhyw yr ymatebydd. Roedd ymatebwyr benywaidd yn gwneud 1.1% o'u teithiau mewn tacsi (6.8 taith y pen y flwyddyn), o'i gymharu â 0.8% o deithiau gan ymatebwyr gwrywaidd (4.9 taith y pen y flwyddyn).

Cyfran o'r prif ddull teithio yn ôl statws anabledd

- Roedd ymatebwyr anabl wedi gwneud 1.5% o deithiau mewn tacsi (8.2 taith y pen y flwyddyn), o'i gymharu â 0.7% gan ymatebwyr nad oeddent yn anabl (4.8 taith y pen y flwyddyn).

Teithiau aml-ddull

Pan fydd dau ddull teithio neu fwy yn cael eu defnyddio ar gyfer un daith, gelwir hyn yn daith aml-ddull. Y prif ddull teithio yw'r dull a ddefnyddir ar gyfer y pellter hiraf yn y daith. Diffinnir dulliau eraill a ddefnyddir yn y daith fel dulliau ychwanegol. Mae rhagor o fanylion am deithiau aml-ddull ar gael yn ein diffiniadau.

Yn 2025/26, rydym yn amcangyfrif bod 10.5% o'r holl deithiau yn rhai aml-ddull (65.4 taith y pen y flwyddyn).

- Nid yw teithiau tacsi yn cael eu defnyddio'n aml mewn teithiau aml-ddull. Roeddent yn ymddangos fel y prif fodd mewn 1.5% o deithiau aml-ddull ac mewn 4.1% pellach o deithiau aml-ddull fel dull ychwanegol.
- Gwnaed 3.2% o deithiau i orsafoedd rheilffordd a 5.4% o orsafoedd trên mewn tacsi.
- Mae cyfuno teithiau fel y prif ddull (0.9%) a'r dull ychwanegol (llai na 0.5%), 1.4% o deithiau y pen y flwyddyn yn cynnwys tacsi ar ryw adeg.

Pellter y daith

Pellter y daith mewn tacsi yw hyd y llwybr mwyaf uniongyrchol sy'n bosibl rhwng y man cychwyn a'r gyrchfan. Nid yw'n cael ei fesur fel llinell syth o'r man cychwyn i'r gyrchfan.

Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym wedi cyfrifo pellteroedd ar gael yn ein diffiniadau.

Yn 2025/26, rydym yn amcangyfrif bod hyd cymedrig y daith ar draws pob dull o deithio yn 15.5km, gyda hyd canolrifol taith yn 5.8km.

- Roedd teithiau tacsi yn fyrrach na'r daith arferol. Hyd cymedrig taith tacsi oedd 10.9km ac roedd y daith ganolrifol yn 4.0km o hyd.
- Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn teithio 63.0km y pen y flwyddyn mewn tacsi. Roedd hyn yn 0.7% o gyfanswm y pellter a deithiwyd.

- Roedd 60.4% o deithiau tacsi rhwng 1km a 5km o hyd, gyda 17.5% arall rhwng 5km a 10km, a 12.5% rhwng 10km ac 20km.

Pwrpas y daith

'Pwrpas y daith' yw'r prif reswm pam yr oedd ymatebydd yn teithio. Yn aml, mae hyn yn seiliedig ar y gweithgaredd a wneir ym man cychwyn y daith neu yn y gyrchfan. Mae teithiau hamdden yn unig, lle mai'r weithred o deithio yw'r gweithgaredd hamdden (er enghraifft, mynd i redeg neu gymryd rhan mewn chwaraeon) wedi'u heithrio. Mae hyn yn cyd-fynd â diffiniad Canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol o deithiau cyfleustodau.

Mae gwybodaeth am y teithiau a gynhwyswyd ar gael yn ein diffiniadau.

- "Cymdeithasol neu adloniant" (36.8%) oedd y pwrpas mwyaf cyffredin ar gyfer teithiau tacsi.
- Roedd 19.8% o deithiau mewn tacsi yn deithiau cymudo ac roedd 15.8% ar gyfer siopa.

Tacsi: Cyfran y teithiau yn ôl pwrpas y daith

Ffigur 2: Cyfran y teithiau y pen y flwyddyn yn ôl pwrpas y daith mewn tacsi a siwrneiau cyffredinol, Cymru, 202



Disgrifiad o Ffigur 2: Siart bar llorweddol yn dangos cyfran y teithiau yn ôl pwrpas y daith, gan gymharu teithiau mewn tacsi â theithiau cyffredinol. Mae teithiau tacsi yn fwy tebygol na theithiau yn gyffredinol o fod ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol neu adloniant, cymudo, gwyliau neu deithiau undydd, ac apwyntiadau personol. Mae siopa, y pwrpas teithio mwyaf cyffredin yn ar y cyfan, yn cyfrif am gyfran lai o deithiau tacsi.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, pwrpas y daith

Profiad o deithio mewn tacsi

Fe wnaethom ofyn cwestiynau ychwanegol i ddefnyddwyr tacsi am eu profiad ar eu taith tacsi ddiweddaraf. Rydym wedi diffinio defnyddiwr tacsi fel unrhyw ymatebydd sy'n dweud ei fod wedi teithio mewn tacsi o leiaf unwaith bob ychydig o fisoedd. Roedd hyn yn cyfateb i tua 30.2% o'r ymatebwyr.

Bodlonrwydd â'r daith yn gyffredinol

- Dywedodd 89.3% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon â'u taith yn gyffredinol (46.1% yn fodlon iawn a 43.3% yn eithaf bodlon). Dywedodd 4.5% eu bod yn teimlo'n eithaf anfodlon a dywedodd 2.0% eu bod yn teimlo'n anfodlon iawn.
- Dywedodd ymatebwyr yng nghanolbarth Cymru eu bod yn teimlo'n lleiaf bodlon â'r daith gyffredinol, sef 84.0%. Roedd pob rhanbarth arall yn weddol debyg, gyda gogledd Cymru yn 88.8%, de-orllewin Cymru yn 89.2% a e-ddwyrain Cymru yn 89.8%.

Bodlonrwydd â diogelwch

- Dywedodd 90.7% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon â'u diogelwch (51.2% yn fodlon iawn a 39.5% yn eithaf bodlon). Dywedodd 3.6% eu bod yn teimlo'n eithaf anfodlon a dywedodd 1.2% eu bod yn teimlo'n anfodlon iawn.
- Dywedodd 92.7% o fenywod a ymatebodd eu bod yn teimlo'n fodlon o'i gymharu â 88.8% o'r dynion a ymatebodd.
- Yn gyffredinol, mae bodlonrwydd â diogelwch yn cynyddu wrth i'r grŵp oedran gynyddu o 88.4% ar gyfer y rhai 16-24 oed i 94.6% ar gyfer y rhai 85 oed a hŷn.

Bodlonrwydd â nodweddion teithiau mewn tacsi

Cafodd defnyddwyr tacsi eu neilltuo ar hap naill ai i ateb bodlonrwydd â dulliau cyfathrebu gyrwyr a hwylustod archebu ymlaen llaw neu logi ar unwaith neu gyda phrydlondeb a dibynadwyedd.

Bodlonrwydd â dulliau cyfathrebu gyrwyr

- Roedd 88.0% o'r ymatebwyr yn fodlon â dulliau cyfathrebu gyrwyr ac roedd 6.5% o'r ymatebwyr yn anfodlon.
- Roedd mwy o ymatebwyr benywaidd yn fodlon â dulliau cyfathrebu gyrwyr o'i gymharu ag ymatebwyr gwrywaidd (90.1% o'i gymharu ag 86.0%).

Bodlonrwydd â hwylustod archebu ymlaen llaw neu logi ar unwaith

- Hwylustod archebu ymlaen llaw neu logi ar unwaith oedd y bodlonrwydd isaf a nodwyd ar draws yr holl ffactorau ar gyfer tacsi. Dywedodd 82.5% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon gydag hwylustod archebu ymlaen llaw neu logi ar unwaith a dywedodd 10.6% eu bod yn teimlo'n anfodlon.
- Roedd cyfran uwch o ymatebwyr nad oeddent yn anabl yn teimlo'n fodlon gydag hwylustod archebu ymlaen llaw neu logi ar unwaith o'i gymharu ag ymatebwyr anabl (84.6% o ymatebwyr nad oeddent yn anabl o'i gymharu â 78.0% o ymatebwyr anabl).

Bodlonrwydd â phrydlondeb

- Dywedodd 90.0% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n fodlon â phrydlondeb a dywedodd 6.5% eu bod yn teimlo'n anfodlon.

- Roedd 92.2% o'r ymatebwyr nad oeddent yn anabl yn fodlon â phrydlondeb eu taith tacsi ddiweddaraf, o'i gymharu ag 84.7% o'r ymatebwyr anabl.

Bodlonrwydd â dibynadwyedd

- Roedd 88.5% o'r ymatebwyr yn fodlon â dibynadwyedd ac roedd 7.8% o'r ymatebwyr yn anfodlon.
- Roedd mwy o fenywod a ymatebodd yn fodlon â dibynadwyedd (90.0%) o'i gymharu ag ymatebwyr gwrywaidd (86.7%).
- Roedd 89.8% o'r ymatebwyr nad oeddent yn anabl yn fodlon â dibynadwyedd, o'i gymharu ag 83.1% o'r ymatebwyr anabl.

Dibynadwyedd tacsis: Bodlonrwydd yn ôl statws anabledd

Ffigur 3: Canran yr ymatebwyr sy'n fodlon â phrydlondeb a dibynadwyedd yn ôl statws anabledd, Cymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 3: Siart bar llorweddol yn dangos bod tua 90% o'r ymatebwyr nad oeddent yn anabl yn fodlon â phrydlondeb a dibynadwyedd o'i gymharu â llai nag 85% o'r ymatebwyr anabl.

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, bodlonrwydd

Teimlo croeso

- Dywedodd 93.7% o ymatebwyr eu bod yn teimlo eu bod yn cael croeso mawr iawn neu i ryw raddau ar eu taith ddiweddaraf (50.7% yn cael croeso mawr iawn a 43.0% yn cael croeso i ryw raddau). Dywedodd 2.8% o ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oedd croeso mawr iawn neu i ryw raddau iddynt (0.5% yn cael croeso mawr iawn ac 2.3% yn cael croeso i ryw raddau).

- Roedd y croeso'n amrywio rhwng grwpiau oedran, gyda'r rhai rhwng 35 a 44 oed yn teimlo'r croeso lleiaf, sef 89.7% o'i gymharu â'r rhai rhwng 75 ac 84 oed yn cael y croeso mwyaf, sef 97.9%.

Pam oedd ymatebwyr yn teimlo nad oedd croeso iddynt

Dywedodd 2.8% o ddefnyddwyr eu bod yn teimlo nad oedd croeso iddynt ar eu taith tacsi ddiweddaraf. Gofynnom i'r defnyddwyr pam eu bod yn teimlo fel hyn.

- Dywedodd 65.6% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo nad oeddent yn cael croeso oherwydd y "gyrrwr tacsi" a 31.2% oherwydd "[eu] hamgylchedd".

Defnydd o'r Gymraeg

Gofynnwyd i ddefnyddwyr tacsi a allai gyfathrebu yn Gymraeg pa iaith roedden nhw'n ei defnyddio wrth deithio mewn tacsi. Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym wedi diffinio defnyddwyr Cymraeg ar gael yn ein dogfen ddiffiniadau. Gallai ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn wrth ateb y cwestiwn hwn.

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn defnyddio Saesneg (91.6%) yn ystod eu taith tacsi. Roedd 13.2% o ddefnyddwyr tacsis yn defnyddio'r Gymraeg ar eu taith tacsi.
- Gofynnwyd cwestiwn dilynol i'r 84.4% a ddywedodd wedyn nad oeddent wedi defnyddio'r Gymraeg ynghylch a oeddent am gyfathrebu yn Gymraeg. Nid oedd 85.8% eisiau cyfathrebu yn Gymraeg ac roedd 8.1% yn dymuno gwneud hynny ond nid oeddent yn gallu gwneud hynny.

Ffactorau a fyddai'n annog defnyddwyr i deithio mewn tacsi yn amlach

- Roedd 52.0% o ymatebwyr yn cael eu hystyried yn unigolion a oedd yn ddefnyddwyr tacsi.
- Y ffactorau mwyaf poblogaidd a fyddai'n annog pobl i ddefnyddio tacsi oedd "prisiau rhatach" (65.8%), "dibynadwyedd gwell" (22.5%) a "dim un o'r rhain" (17.6%).

Beth fyddai'n annog pobl i deithio mewn tacsi

Ffigur 4: Ffactorau a fyddai'n annog pobl i deithio mewn tacsi yng Nghymru, 2025/26



Disgrifiad o Ffigur 4: Siart bar llorweddol yn dangos y ffactorau fyddai'n annog pobl i deithio mewn tacsi. Yr ymateb mwyaf cyffredin i ddefnyddwyr a'r rhai nad oeddent yn ddefnyddwyr oedd "prisiau rhatach" (65.8% a 46.0% yn y drefn honno).

Ffynhonnell: Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru, ffactorau i annog newid dulliau teithio i ddulliau teithio cynaliadwy

Nodyn 1: Yn seiliedig ar ba mor aml yr oedd ymatebwyr yn teithio, cafodd 3,065 (52.0%) o unigolion eu nodi fel ddefnyddwyr a 2,975 (46.4%) eu nodi fel pobl nad oeddent yn ddefnyddwyr.

Yn rhanbarthol

- Ar draws y rhanbarthau, "prisiau rhatach" a "dibynadwyedd gwell" oedd y ffactorau a ddewiswyd fwyaf. Roedd "prisiau rhatach" yn amrywio o 53.1% yng nghanolbarth Cymru i 69.4% yn ne-ddwyrain Cymru. Roedd "dibynadwyedd gwell" yn amrywio o 20.2% yn ne-orllewin Cymru i 24.4% yng ngogledd Cymru.

Yn ôl grŵp oedran

- "Prisiau rhatach" oedd y ffactor a ddewiswyd fwyaf ar draws y grwpiau oedran. Gostyngodd cyfran yr ymatebwyr a ddewisodd "prisiau rhatach" o 73.1% o'r rhai 16-24 oed i 45.7% o'r rhai 85 oed neu hŷn.
- Roedd patrwm tebyg i'w weld yn "dibynadwyedd gwell" (sef yr ail neu'r trydydd ffactor mwyaf cyffredin), gan ostwng o 26.6% i bobl 25-34 oed i 14.2% i bobl 75-84 oed.

Ffactorau a fyddai'n annog pobl nad ydynt yn ddefnyddwyr i deithio mewn tacsi yn amlach

- Roedd 46.4% o ymatebwyr yn cael eu hystyried yn unigolion nad oeddent yn ddefnyddwyr.
- "Prisiau rhatach" hefyd oedd y ffactor mwyaf cyffredin a ddewiswyd ar gyfer y rhai nad oeddent yn ddefnyddwyr, sef 46.0%. Dilynwyd hyn gan "ddim un o'r rhain" (38.8%) a "gyrwyr mwy croesawgar" (11.8%).

Rhyw yr ymatebydd

- "Prisiau rhatach" a "dim un o'r rhain" oedd y ddau ffactor mwyaf cyffredin gan ymatebwyr benywaidd a gwrywaidd, mewn cyfrannau tebyg.
- Ar gyfer ymatebwyr benywaidd, y trydydd ffactor mwyaf cyffredin oedd "gyrwyr mwy croesawgar" (12.1%). I ddynion a ymatebodd, roedd yn "ddibynadwyedd gwell" (11.6%).

Yn rhanbarthol

- Yn ne-ddwyrain Cymru a de-orllewin Cymru, "prisiau rhatach" oedd y ffactor mwyaf cyffredin, sef 48.6% a 49.2% yn y drefn honno. Dilynwyd hyn gan "dim un o'r rhain" (36.3% a 37.3%) a "gyrwyr mwy croesawgar" (13.9% a 12.5%).
- Fodd bynnag, yng nghanolbarth Cymru a gogledd Cymru, y ffactor mwyaf cyffredin oedd "dim un o'r rhain" sef 42.0% a 43.6%, ac yna "prisiau rhatach" (38.5% a 41.2%). Y trydydd ffactor mwyaf cyffredin yng nghanolbarth Cymru oedd "byddwn yn defnyddio tacsis os oeddent ar gael yn fy ardal leol" (12.1%). Yng ngogledd Cymru, cafodd "dibynadwyedd gwell" ei ddewis gan 9.8% o'r ymatebwyr fel y trydydd ffactor mwyaf cyffredin.

Yn ôl grŵp oedran

- Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddewisodd "prisiau rhatach" wedi gostwng wrth i'r grŵp oedran gynyddu o 54.0% o'r rhai rhwng 16 a 24 oed i 26.7% o'r rhai sy'n 85 oed a hŷn. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r rhain yn cynyddu mewn cyfran wrth i grŵp oedran gynyddu o 26.4% o'r rhai rhwng 16 a 24 oed i 63.6% o'r rhai sy'n 85 oed neu'n hŷn.